

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

BYDDWCH MWY



AR-ALWAD
ON-CALL

LLYFRYN GWYBODAETH
YMLADDWYR TÂN

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Bydd y Llyfryn Gwybodaeth yn rhoi cipolwg i chi o rôl Ymladdwr Tân Ar Alwad sy'n gweithio o fewn y System Ddyletswydd Rhan Amser.* Byddwch yn dod yn ymwybodol o'r mathau o weithgareddau y gallwch ddisgwyl cymryd rhan ynddynt yn ystod eich gyrfa gyda ni. Ceir hefyd fanylion ynghylch y broses recriwtio gyfredol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn ymrwymedig i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a thegwch yn y gweithle.

* System Ddyletswydd Rhan Amser = System Rhan Amser

BETH SYDD TU FEWN?

- 6

BETH YW YMLADDWR TÂN AR ALWAD?
- 8

PAM FOD ANGEN YMLADDWYR TÂN AR ALWAD?
- 9

PA MOR AML BYDDAI EICH ANGEN CHI?
- 9

SUT BYDDWCH CHI’N ELWA?
- 10

FAINT FYDD EICH CYFLOG?
- 15

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT YN Y GWAITH
- 16

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU
- 20

SAFONAU YMDDANGOSIAD
- 22

OES GENNYCH Y DDAWN?
- 26

I LE’R EWCH CHI O’R FAN HYN?





CYFLWYNIAD

Gwasanaethir ardal Gwasanaeth De Cymru gan 47 o Orsafoedd Tân ac Achub. Mae'r rhain yn cynnwys 11 System Ddyletswydd Gyflawn (SDdG), 27 System Ar Alwad a 9 System Llawn Amser/Ar Alwad

Caiff Gorsafoedd Ar Alwad eu criwio pan fydd digwyddiad yn digwydd ac yn ystod y sesiwn ymarfer dwy awr o hyd wythnosol yn unig. Mae Ymladdwyr Tân Ar Alwad yn ymateb i alwadau brys o'u cartrefi yn ystod oriau hamdden neu, mewn rhai achosion, o'u gweithleoedd os bydd eu cyflogwr yn caniatáu.

Mae pob Ymladdwr Tân yn cario 'rhybuddiwr' bob amser tra byddant ar ddyletswydd fel y cânt gyfle i ymateb i'r Orsaf Dân pan fo angen.

YMLADDWR TÂN **AR ALWAD?**

Gall unrhyw berson o unrhyw alwedigaethau fod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad. Er enghraifft, maent yn cynnwys adeiladwyr, ymgynghorwyr, rhieni sy'n aros gartref, gweinyddwyr, gweithwyr ffatri, gweithwyr gofal, myfyrwyr neu bobl sy'n ddi-waith ar hyn o bryd.

Maent yn bobl a all roi o'u hamser i gynorthwyo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gyfnewid am gyflog. Mae Ymladdwyr Tân Ar Alwad yn darparu cwmnasiad yn ystod y dydd a'r nos ac ar benwythnosau.

Gallent fod yn gweithio ar eu liwt eu hunain neu o bosib i gwmni sy'n barod i ganiatáu iddynt gael amser bant.

Rhaid bod modd iddynt adael yr hyn y maent yn ei wneud wrth i'r rhybuddiwr ganu ac ymateb yn syth i'r Orsaf Dân ac Achub.

Rydym yn gofyn i bob Ymladdwr Tân Ar Alwad ymroi i weithio nifer benodol o oriau bob wythnos. Mae nifer o wahanol fathau o gytundebau ar gael gan ddibynnu ar nifer yr oriau

y mae'r unigolyn yn gallu ymroi iddynt.

Newidiodd swyddogaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub yn sylweddol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf a rhaid i'r gwaith a ymgymerir gan Ymladdwyr Tân yn y gymuned adlewyrchu'r gofynion newydd a osodir ar y Gwasanaeth. Mae gofyn i Ymladdwyr Tân heddiw fod hyd yn oed yn fwy hyblyg.

Rydym yn hyfforddi ein holl Ymladdwyr Tân i ddelio ag ystod eang o sefyllfaoedd a digwyddiadau. Mae'n ofynnol i Ymladdwyr Tân fynychu sesiwn hyfforddi (a elwir yn noson ymarfer) bob wythnos.

Cynhelir hwn yn eu Gorsaf Dân leol ar gyfer hyfforddiant a chynnal a chadw offer hanfodol. Gan weithio fel rhan o dîm effeithiol, maent yn defnyddio'r offer, y dulliau a'r technegau diweddaraf i berfformio amrediad o ddyletswyddau.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Taclo tanau mewn eiddo
- Tanau glaswellt a thir fferm
- Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf)
- Gollyngiadau cemegol

- Achubiadau anifeiliaid
- Llifogydd
- Argyfyngau meddygol.

Gall Ymladdwyr Tân gyfnewid o'r rôl adweithiol hon i un fwy ataliol sy'n cynnwys addysgu ein cymunedau.

Mae'n ofynnol iddynt feddu ar y gallu i gyfathrebu â'r grwpiau amrywiol o fewn eu cymunedau, gan gyflwyno cyflwyniadau addysgiadol mewn perthynas â nifer o bynciau megis:

- Diogelwch Tân yn y Cartref
- Ymwybyddiaeth Diogelwch ar y Ffyrdd
- Ymgysylltu â'r Gymuned
- Addysg leuenctid.

Mae ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ffordd arbennig o gwrdd â phobl newydd - y bobl yr ydych yn gweithio â hwy a'r bobl yn y gymuned y byddwch yn eu helpu. Mae rhyw fath o gyswllt arbennig ymysg Ymladdwyr Tân. Mae'n dod o weithio gyda'ch gilydd fel tîm mewn amgylchiadau sydd weithiau'n beryglus neu'n emosiynol. Mae hynny'n helpu i'ch rhwymo gyda'ch gilydd mewn modd na all llawer o swyddi eraill ei gyflawni.





PAM BOD **ANGEN** YMLADDWYR TÂN AR ALWAD?

Mae Ymladdwyr Tân yn rhan hanfodol o Wasanaeth Tân ac Achub heddiw. Maent yn darparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol sy'n rhoi cyflenwad brys i fwy na 90% o'r DU.

Yn Ne Cymru, mae tua thraean o'n gweithlu gweithredol yn Ymladdwyr Tân Ar Alwad a leolir fel arfer mewn cymunedau gwledig, trefi bach a phentrefi.

PA MOR AML BYDDAI EICH ANGEN CHI?

Mae'r nifer o ddigwyddiadau a fynychir gan Ymladdwr Tân Ar Alwad yn amrywio o'r naill Orsaf Dân ac Achub i'r llall. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub agosaf. Mae angen pobl arnom i gyflenwi rownd y cloc, yn enwedig gyda'r dydd yn ystod oriau'r dydd ar ddyddiau'r wythnos a'r penwythnosau.

Rydym yn gwerthfawrogi bod angen i bawb gymhwyso eu bywyd gwaith â'u bywyd preifat a golyga hyn fwynhau peth amser gwerthfawr yn rhydd. Mae Ymladdwyr Tân Ar Alwad yn cael rhwng 4 i 5 wythnos o wyliau blynyddol, gan ddibynnu ar faint o gyflogaeth barhaus sydd ganddynt.

SUT BYDDWCH CHI'N **ELWA OHONI?**

Heblaw am gyflog foddhaus, mae swydd ymladd tân yn waith unigryw. Gall fod yn anrhwngwladwy, yn gyffrous ac yn foddhaus. Mae bodlonrwydd a pharch yn deillio o ddarparu gwasanaeth hanfodol i'r gymuned leol. Yn ogystal â dysgu technegau ymladd tân mae Ymladdwyr Tân Ar Alwad yn ennill sgiliau eraill, megis;

- Gweithdrefnau gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd
- Diogelwch Tân
- Diogelwch Cymunedol
- Gweithio ar uchder ac o fewn gwagleoedd cyfyng
- Cymorth cyntaf
- Iechyd a Diogelwch
- Sgiliau arweinyddiaeth
- Gyrru Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV).

FAINT FYDD EICH CYFLOG?

Unwaith y cynnigir cyflogaeth i chi, byddwch yn dechrau ar gyfradd cyflog hyfforddai ar gytundeb o 42 awr yr wythnos. Ar ôl cael sesiwn anwytho a chyfnod byr o ddysgu cyn cwrs disgwylir i chi fynychu eich cwrs hyfforddi cychwynnol sylfaenol dwy wythnos o hyd a gynhelir mewn un o'n Lleoliadau Hyfforddi a Datblygu.

Wedi llwyddo i gwblhau'r cwrs cewch eich talu ar gyfradd ddatblygu ar sail cytundeb 42 awr yr wythnos, fodd bynnag gall ofynion yr Orsaf ganiatáu i chi gymryd hyd at 63 awr yr wythnos ar gytundeb dros dro. Gweler tudalen 12 am wybodaeth am gyflogau.

Telir cyflogau yn fisol drwy law Trosglwyddiad Credyd Uniongyrchol i'ch Banc ar y 15fed o'r mis.

Ar gwblhad llwyddiannus eich cwrs Offer Anadlu, bydd pob cytundeb ar gael i chi - fodd bynnag, dyfernir y rhain yn ôl anghenion unigol yr orsaf.

Yr amser cyfartalog i Ymladdwr Tân ddatblygu gyflawni cymhwysedd yn y rôl fydd rhwng 18 a 24 mis.

*Bydd pob taliad ar gyfer cyrsiau yn ychwanegol i'ch cyflog cytundebol.

BUDDION ERAILL

- Cymwysterau a hyfforddiant cydnabyddedig eraill
- Gwyliau â chyflog
- Sgiliau trosglwyddadwy
- Mynediad i'r gampfa a chyfleusterau hyfforddi ffitrwydd
- Datblygu cydberthnasau hirdymor
- Gyrfa foddhaol, wobrwyl.



FAINT FYDDEICH TÂL BLYNYDDOL?

ORIAU'R WYTHNOS	42	52.5	63	73.5	84	94.5	105
Ymladdwr Tân Hyfforddai	£3,847	-----	-----	-----	-----	-----	-----
Ymladdwr Tân Datblygu	£4,005	£5,006	£6,007	£7,008	£8,010	£9,011	£10,012
Ymladdwr Tân Cymwys	£5,126	£6,407	£7,689	£8,970	£10,252	£11,534	£12,815
Rheolwr Criw Datblygu	£6,538	£8,173	£9,807	£11,442	£13,077	£14,711	£16,346
Crew Manager Cymwys	£6,817	£8,521	£10,226	£11,930	£13,635	£15,339	£17,043
Rheolwr Gwylfa Datblygu	-----	-----	£10,449	£12,190	£13,932	£15,673	£17,415
Rheolwr Gwylfa Cymwys A	-----	-----	£10,739	£12,529	£14,319	£16,108	£17,898
Rheolwr Gwylfa Cymwys B	-----	-----	£11,441	£13,348	£15,255	£17,161	£19,068

Cyfraddau Tâl Diwygiedig ar gyfer Ymladdwyr Tân Ar Alwad o 1 Gorffennaf 2017.

"Rwy'n teimlo mod i'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol."

Enw: Claire Amor

Gorsaf: Cas-gwent

Roeddwn i eisiau bod yn Ymladdwr Tân ers pan oeddwn yn ifanc iawn ond, wedi dilyn llwybr gyrfa wahanol, yn 37 oed newidiodd fy mywyd a phenderfynais gyflwyno cais i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Roedd yr hyfforddiant yn eithaf heriol i mi ond, gan fy mod i'n gymharol ffit, roedd e hefyd yn bleserus dros ben.

Ymunais â'r tîm fel Ymladdwr Tân Gweithredol yng Ngorsaf Tân ac Achub Cas-gwent ac unwaith mod i ar yr Orsaf, ffurfiais gyswllt agos â gweddill yr Wylfa gan fwynhau'r agweddau amrywiol o fywyd, gwaith ac arferion yr orsaf. Canfyddais fod llawer mwy iddi na dim ond ateb galwadau argyfwng, sef y prif reswm pam yr ymunais.

Mae'r swydd a'r boddhad personol sy'n dilyn achubiad llwyddiannus o dân, gwrthdrawiad traffig ar y ffyrdd neu ddigwyddiad arall wastad yno ac, fel criw, rydych chi wir yn teimlo eich bod wedi gwneud gwahaniaeth.

Mae Diogelwch Cymunedol a gwaith atal yn rhan fawr o waith yr orsaf hefyd. Mae hyn yn rhoi cymaint o fwynhad i mi ag y mae mynychu galwadau brys ac er nad oes cymaint o adrenalin, mae gwir foddhad i'w gael wrth helpu pobl o bob cefndir.

Rhaid i mi ddweud mod i'n mwynhau'r swydd nawr cymaint ag yr oeddwn i pan ymunais i am y tro cyntaf. Rwy wrth fy modd yn gweithio fel rhan o dîm agos o fewn tîm ehangach GTADC.



CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT YN Y GWAITH

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn wasanaeth cymunedol. Mae'n ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a rhoi gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cymunedau amrywiol ledled De Cymru. Ein nod a'n hymrwymiad yw sicrhau na fydd unrhyw weithiwr nac ymgeisydd yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail:

- Oed
- Anabledd
- Hunaniaeth o ran Rhywedd / Ailbennu Rhywedd
- Statws Priodasol
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- neu sydd wedi'u hanfantasio gan ofynion na ellir eu cyfiawnhau.

Wrth ddarparu gwasanaethau, rydym yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch, beth bynnag eu diwylliant, eu cefndir, neu eu ffordd o fyw. Rydym wedi ymrwymo i wrando ar anghenion gwahanol ein cymunedau amrywiol a darparu gwasanaethau priodol iddynt.

Rydym yn disgwyl yr un ymrwymiad gan unrhyw asiantaethau/partneriaid sy'n gweithio ar ein rhan. Mae gan bob gweithiwr yr hawl i gael ei drin/ei thrin ag urddas ac ystyriaeth yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i weithio mewn amgylchedd diogel ac iach sy'n rhydd rhag aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu neu fygythiad uniongyrchol neu anuniongyrchol gan weithwyr eraill.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Ein prif nod yw amddiffyn ac achub pobl ac eiddo rhag tân a pheryglon eraill yn y ffordd fwyaf cymwys ac effeithiol i'r safon uchaf posib o ran gofal ac ansawdd.

HYFFORDDI

Cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi barhaus wrth fynychu darlithoedd, ymarferion, sesiynau ymarfer a ffurfiau eraill o hyfforddiant er mwyn cynnal lefelau cymhwysedd. Mynychu cyrsiau hyfforddi yn ôl y cyfarwyddyd. Ymgymryd â Rhaglen Ddatblygu Ymladdwyr Tân Achrededig Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder a diploma Lefel 3 mewn Gweithrediadau Gwasanaeth Tân Argyfwng yn y Gymuned.

OFFER

Cynnal yr holl offer ymladd tân ac argyfwng mewn stad o barodrwydd i'w defnyddio, gan gynnwys glanhau, trwsio a phrofi'r offer yn ôl y gofyn hyd at safonau a gweithdrefnau cymeradwy. Gwirio'r adnoddau ymladd tân a ddarperir at ddefnydd y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys hydrantau a gosodiadau sefydlog.

DAEARYDDIAETH LEOL

Gwybod am strydoedd, ffyrdd ac adeiladau lleol sydd o fewn ardal ymateb yr Orsaf Dân. Bod yn ymwybodol o'r risgiau, peryglon posib a chyflenwadau dŵr sydd ar gael o fewn ardal yr Orsaf Dân.

ARGYFYNGAU

Ymateb i bob galwad brys a cheisiadau am gymorth yn syth ac yn ddiogel. Delio ag argyfyngau yn ôl cyfarwyddyd a gweithio'n effeithiol ac effeithlon fel aelod o dîm disgybledig. Lleihau trallod a dioddefaint, gan gynnwys rhoi cymorth cyntaf.

GWEINYDDIAETH

Cwblhau gwaith papur sylfaenol a gweinyddiaeth arferol, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth.

YMGYSYLLTU CYMUNEDOL

Sefydlu a chynnal hyder aelodau'r cyhoedd. Cynnal cysylltiadau o fewn y gymuned. Bod yn sensitif i anghenion eraill, mewn perthynas â materion tegwch ac urddas.

Rhoi cyngor a chanllawiau diogelwch tân cyffredinol i bobl yn ôl y gofyn. Gweithio i helpu addysgu aelodau'r gymuned ynghylch peryglon tân ac argyfyngau eraill. Cynorthwyo â mentrau, rhaglenni a strategaethau'r Gwasanaeth i leihau galwadau tân.

FFITRWYDD A GLANWEITHDRA PERSONOL

Cynnal lefel o ffitrwydd corfforol a meddygol angenrheidiol i gyflawni holl ddyletswyddau Ymladdwr Tân. Cynnal delweddd bersonol, glanweithdra a glendid y wisg yn unol â gwasanaeth disgybledig.

IECHYD A DIOGELWCH

Adnabod materion iechyd a diogelwch yn y gwaith ac ymdrin â nhw i leihau neu ddileu'r maint o beryg neu risg. Sicrhau diogelwch personol a diogelwch eraill ar bob adeg.



GWERTHOEDD CRAIDD

SEFYDLIADOL



PROFFESIYNOL | GOFALGAR | PARCHUS | GRYMUS | DIBYNADWY | PWRPASOL | DISGYBLEDIG | HYDWYTH



SAFONAU YMDDANGOSIAD YMLADDWYR TÂN

Gan ein bod yn Wasanaeth Tân ac Achub mae'n bwysig tu hwnt i'r Gwasanaeth greu delwedd bositif o fewn y cymunedau a wasanaethir ganddo.

Mae'n ofynnol i bob Ymladdwr Tân wisgo eu gwisg gyda balchder gan sicrhau ein bod yn ddiogel tra ar ddyletswydd weithredol.

TLYSAU A THYLLAU

Dylid tynnu pob darn o emwaith ac addurniadau tyllau sydd yn y golwg cyn cychwyn dyletswydd neu hyfforddiant. Mae hyn er mwyn atal anafiadau ac yn ofyniad o dan bolisi lechyd a Diogelwch y Gwasanaethau.

GWALLT

Dylai hwn fod yn lân, yn dwt ac yn daclus, ac ni ddylai amharu ar ffit yr helmed dân na mwgwd yr offer anadlu. Dylid cadw gwallt hir i fyny oddi ar y coler ac o dan yr helmed dân wrth gymryd rhan mewn hyfforddiant neu ar ddyletswydd weithredol.

GWALLT WYNEBOL

Ni ddylid tyfu hwn mewn modd a fyddai'n amharu ar sêl y mwgwd offer anadlu. Mae'n bosib bod mwstachis a barf fer ar yr ên yn dderbyniol o fewn meini prawf penodol.

CELF CORFF

Ni dderbynnir unrhyw gelf corff a ystyrir i fod yn wahaniaethol, yn ddifriol, yn dreisgar, yn fygythiol, yn anghwrtais, yn amrwd, yn hiliol, yn rhywiaethol, yn sectyddol, yn homoffobig neu'n dreisgar o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a gallai atal eich cais rhag cael ei brosesu.



OES GENNYCH Y DDAWN?



1

Ydych chi'n ddisgybledig?

2

Ydych chi'n gallu gweithio mewn tîm agos?

3

Ydych chi'n berson ymarferol sy'n mwynhau gweithio ag amrediad o offer?

4

A oes gennych y sensitifrwydd i ddelio ag aelodau'r cyhoedd pan fyddant yn ofidus?

5

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn brydlon?

6

Ydych chi'n ymroi i gynnal eich ffitrwydd corfforol a'ch iechyd?

7

Gallwch chi gyfathrebu â phobl o wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd?

8

Ydych chi wedi ymrwymo i gynnal a datblygu eich sgiliau'n barhaus?

PARTNERIAID A CHYMORTH TEULU

Heb gefnogaeth ac anogaeth partneriaid a theuluoedd, byddai'n anodd i Ymladdwyr Tân Ar Alwad gyflawni eu rôl. Prif heriau bod yn Ymladdwr Tân yw:

- Anhawster cynllunio gweithgareddau yn y fan a'r lle
- Galwadau ganol nos
- Methu ag ymroi i fod yn ofalwyr unigol pan Ar Alwad

Bydd hefyd angen gwneud trefniadau eraill ar gyfer gofal plant neu ddibynyddion oherwydd yr angen i ymateb i argyfwng.

Mae bod ag Ymladdwr Tân Ar Alwad o fewn y teulu â manteision megis:

- Cyfrannu at y gymuned lle maent yn byw
- Budd ariannol
- Bod yn gymwys i gyflwyno asesiadau risg o fewn y cartref
- Yn gymwys mewn cymorth cyntaf
- Bod yn fodel rôl gadarnhaol
- Sgiliau gwerthfawr eraill

“Mae’r rôl wedi rhoi’r hyder i mi wneud unrhyw beth.”

Enw: Elizabeth Sharpe

Gorsaf: Trefynwy

Rhiant sengl ydw i ac roeddwn i eisiau dangos i fy mhlant yr hyn a ellir ei gyflwyno drwy waith caled ac ymroddiad. Mae’r rôl wedi rhoi’r hyder i mi wneud unrhyw beth.

Roedd aelodau o fy nghymuned leol wedi fy annog i gyflwyno cais. Byddwn i bob amser yn ymwneud â gwyliau ac ati, ac ata i byddai pawb yn troi i gael cyngor bob amser. Bues i’n ddisgybledig a des i’n ddigon ffit i gyflwyno cais. Rwy’n falch o’r hyn ‘rwy wedi ei gyflawni.

Mae bod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad yn cydfodoli â fy mhrif gyflogaeth, fy mhlant a fy mywyd arferol. Galla i ddim siarad ar ran pawb ond mae hi wedi bod yn hawdd iawn i gyfuno’r swydd hon â swyddi eraill. Mae fy nghyflogwyr wedi bod yn ystyriol iawn.

Mae cysylltiad hynod o gryf rhyngom i gyd yn yr orsaf, rydym fel teulu. Rydych chi’n gofalu am eich gilydd gan eich bod yn cydweithio mor agos. Pan fyddwch yn cychwyn, mae’n bosib byddwch ychydig yn betrusgar gan na fyddwch yn ymwybodol o’r hyn sydd o’ch blaen, ond rydych chi’n rhan o dîm.

Mae digwyddiadau’n heriol ond rydych yn dysgu gan bob un ohonynt - y rhai da a’r rhai drwg. Canfyddais fod y rôl yn gwneud i chi feddwl mwy, ac i mi, mwy am fy niogelwch fy hun. ‘Rwy wedi tyfu i fyny, er mai 37 oeddwn i pan ddechreuais i!

Byddwn i’n annog unrhyw un i ystyried bod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad, mae’r rôl yn wirioneddol agored i bawb.



I LE'R EWCH CHI O FAN HYN?

FFURFLEN GAIS

Cofrestrwch eich manylion a chyflwynwch gais drwy law'r ddolen ar www.decymru-tan.gov.uk. Gofynnir cwestiynau sylfaenol i chi i sicrhau eich bod yn gymwys i ymgeisio, megis;

- A ydych chi'n 17 blwydd a 6 mis oed neu'n hŷn
- A oes gennych yr hawl i weithio yn y DU
- A oes gennych unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu. Os ydych yn ansicr os yw'r euogfarn wedi'i disbyddu, cysylltwch â NACRO am gyngor www.nacro.org.uk.

CYFWELIAD ADDASRWYDD

Ar ôl derbyn ffurflen gais addas, cynigir gwahoddiad i fynychu Cyfweiliad Addasrwydd i drafod yr ymroddiad a disgwyliadau a ofynnir gan rôl Ymladdwr Tân Ar Alwad.

ADNABYDDIAETH

Mae'n ofynnol bod Llun Adnabod gyda chi bob tro y byddwch yn ymweld ag un o'n safleoedd.

PRAWF O'CH CYFEIRIAD

Gofynnir i chi hefyd ddarparu prawf o'ch cyfeiriad gyda dogfen sy'n ddyddiedig o fewn y tri mis diwethaf.

ASESIAD GALLU

Mae'r cam hwn yn ymwneud â mesur eich gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth rhif a'ch sgiliau datrys problemau ymarferol ac yn amlygu'r hyn yr ydych yn deall am gynnwys darnau ysgrifenedig.

ASESIAD CORFFOROL AC YMARFEROL

Cyn cychwyn y profion byddwch yn cael asesiad iechyd a ffitrwydd gan fod y profion hyn yn adlewyrchu ymarferiadau gweithredol.

Y nod yw asesu lefel eich ffitrwydd, eich nerth a'ch medrusrwydd corfforol yn ogystal â lefel eich hyder mewn ymarferion ffug.

CYFWELIAD SWYDD

Yn ystod y cyfweiliad swydd, gofynnir cyfres o gwestiynau i chi a gynlluniwyd i fesur eich nodweddion a'ch rhinweddau proffesiynol.

TYSTLYTHYRAU

Bydd angen cyflwyno ymholiadau mewn perthynas â Chyflogwyr a Chymeriad i gwmpasu cyfnod o **dair blynedd**.

PRAWF MEDDYGOL

Gall Ymladdwyr Tân wynebu gofynion corfforol a seicolegol eithafol mewn amgylchiadau anodd a pheryglus. I gydymffurfio â'r darpariaethau statudol perthnasol, mae sgrinio meddygol Ymladdwyr Tân yn drwyadl. Dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ostwng risg cyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol. Golyga hyn na fydd cyflwr meddygol sy'n arwain at risg gweithredol rhesymol rhagweladwy yn dderbyniol.

Bydd yr asesiad unigol yn cynnwys ystyriaeth deg o unrhyw safbwyntiau ac adroddiadau meddygol y dymunwch gyflwyno. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad ynghylch perthnasedd unrhyw risgiau yn gorwedd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar www.decymru-tan.gov.uk.

PENODI

Os ydych chi'n llwyddo ym mhob cam o'r broses ddethol, cynnigir cyflogaeth yn amodol ar anghenion a gofynion y sefydliad.

CYFNOD ANWYTHO A DYSGU CYN CWRS

Mae hwn yn darparu cyfle i'r Gwasanaeth eich croesawu, eich helpu i setlo a sicrhau bydd gennych y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd angen arnoch i berfformio eich rôl ac yn eich paratoi ar gyfer y Cwrs Hyfforddi cychwynnol.

CWRS HYFFORDDI CYCHWYNNOL YMLADDWR TÂN AR ALWAD

Bydd angen i chi ymgymryd â chwrs dibreswyl pythefnos o hyd (Dydd Llun i Ddydd Gwener) yn un o'n cyfleusterau Hyfforddi. Yn ystod y rhaglen hyfforddi, byddwch yn derbyn addysg ar sgiliau sylfaenol Ymladdwyr Tân gan gynnwys defnyddio pibau, pypiau, ysgolion a sgiliau sylfaenol ar gyfer ymladd tanau.

Bydd y cwrs yn gofyn i chi gymhwyso swm sylweddol o ddysgu am ddeunyddiau damcaniaethol ac ymarferol. Bydd gofyn i chi astudio ac adolygu yn eich amser eich hun yn ogystal ag yn y dosbarth.

Fe'ch cynghorir i'ch paratoi eich hun i lefel resymol o ffitrwydd cyn y cwrs a hefyd i gynnal y ffitrwydd hwn yn ystod y cwrs ei hun.

Gofynnir i bob hyfforddai gwblhau Rhaglen Ddatblygu Ymladdwyr Tân a gymeradwyir gan Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder a diploma Lefel 3 mewn Gweithrediadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân yn y Gymuned yn ystod eu cyfnod datblygu.

Bydd y cyfnod datblygu yn para am gyfnod rhwng 18-24 mis.

"Yr unig beth rwy'n difaru yn ei gylch yw nad oeddwn i wedi ymuno ynghynt."

Enw: Matt Norman

Gorsaf: Mynydd Cynffig

Roeddwn i eisiau ymuno gan fy mod i'n credu y byddai rôl Ymladdwr Tân Ar Alwad yn gyffrous a boddhaus. Gan fod cyfle yma ar stepen fy nrws, penderfynais ymuno. "Yr unig beth rwy'n difaru yn ei gylch yw nad oeddwn i wedi ymuno ynghynt"

Mae bywyd ar Orsaf Dân ac Achub Ar Alwad yn wych. Rydw i wedi creu cydberthnasau agos gyda fy nghydweithwyr sy'n rhan bwysig o fy mywyd cymdeithasol o fewn y swydd a'r tu allan iddi. Ymunais gan wybod y byddwn i'n helpu pobl yn fy nghymuned pan fyddai angen cymorth arnynt; mae hynny'n rhoi boddhad mawr a bodlonrwydd i mi. Byddem fel arfer yn cyrraedd pan fydd rhywun yn cael diwrnod gwael a hoffwn gredu eu bod nhw'n well o'n gweld.

Ces fudd o fod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad cyn i mi ymuno'n llawn amser gan ei fod yn gyfle i gael cipolwg gwerthfawr i'r rôl llawn amser.

Rhoddodd y profiad o fod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad y wybodaeth a'r profiad yr oedd ei angen arnaf, wrth gyflawni tasgau gweithredol mewn digwyddiadau, yn ogystal â gwaith diogelwch yn y gymuned. Mae'n gallu bod yn ffordd dda i weld a yw gyrfa llawn amser fel Ymladdwr Tân yn iawn ar eich cyfer chi.



DEWCH I YMWELD Â NI YN YR ORSAF


Rydym yn annog pobl i ymweld â'u Gorsaf leol ar ei noson ymarfer, sy'n digwydd am 2 awr bob wythnos. Mae'r dyddiau'n amrywio o Orsaf i Orsaf ac yn cael eu cynnal fel arfer rhwng oriau 18:30 – 20:30.

Cyfle gwerthfawr yw hwn i siarad ag Ymladdwyr Tân Ar Alwad ynghylch y rôl. Cewch weld a yw'r oriau sydd gennych i'w cynnig yn ateb gofynion yr Orsaf.

GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD

- 1 Pen-y-bont ar Ogwr
- 2 Porthcawl
- 3 Mynydd Cynffig
- 4 Y Bont-faen
- 5 Pen-coed
- 6 Bro Ogwr
- 7 Pontycymer
- 8 Maesteg
- 9 Treorci
- 10 Tonypandy
- 11 Glynrhedynog
- 13 Gilfach Goch
- 14 Pont-y-clun
- 15 Pontypridd
- 16 Hirwaun
- 17 Aberdâr
- 18 Abercynon
- 19 Llanilltud Fawr
- 20 Y Barri
- 21 Aberbargod
- 24 Caerffili
- 25 Treharris
- 26 Merthyr Tudful
- 27 Tredegar
- 28 Rhymini
- 30 Abercarn
- 31 Rhisga

- 34 Abersychan
- 35 Abertyleri
- 38 Brynmawr
- 39 Blaenafon
- 40 Y Fenni
- 41 Trefynwy
- 42 Brynbuga
- 43 Cas-gwent
- 44 Cil-y-coed



Yma yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru rydym yn disgwyl i'ch croesawu i'n tîm.

Mae bod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad yn gofyn am ymrwymiad gennych chi ond yn gyfnewid, gallwn addo cyfleoedd arbennig i'ch hyfforddi a'ch datblygu.

Gallwn hefyd addo i chi na fydd dwy alwad fyth yr un fath o fewn y swydd hon, felly os ydych chi'n mwynhau her cymaint ag y gwnawn ni, nawr yw'r amser i gyflwyno cais.

Mae ein tîm gerllaw i gynnig unrhyw arweiniad neu gyngor all fod ei angen arnoch ynghylch y swydd, y broses ddethol neu'r hyfforddiant fydd angen arnoch i ymuno.

Cewch gysylltu â ni am fanylion drwy ffonio, ysgrifennu neu edrych ar ein gwefan.

Fel arall, os bydd yn well gennych siarad â ni, croeso i chi alw yn eich Gorsaf Dân ac Achub leol.

Mae ein staff yn gyfeillgar iawn a byddant yn hapus i siarad â chi ynghylch y swydd neu eich cyfeirio at unrhyw gyngor arall a all fod ei angen arnoch.

Cymerwch y cam cyntaf yn eich gyrfa newydd heddiw.



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Tîm Recriwtio ac Asesu
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Llinell Recriwtio - 01443 232200
personél@decymru-tan.gov.uk



@SWFRS_Careers



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

www.decymru-tan.gov.uk